



BRIFF MARCHNATA

Hen Floc Toiledau yn Nhraeth Llanilltud Fawr



CYFLE AM BRYDLES 25 MLYNEDD

Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English

CYFLWYNIAD

Dymuna Cyngor Bro Morgannwg ("y Cyngor") **wahodd cynigion** gan bartïon â diddordeb mewn cymryd prydles ar yr hen floc toiledau yn Nhraeth Llanilltud Fawr ("yr Eiddo" a nodwyd yn **Atodiad A**).

O ystyried lleoliad yr eiddo a'r cyfleoedd y gallai eu cynnig i'w gymuned leol a chymuned ehangach Bro Morgannwg, rhoddir blaenoriaeth i'r defnyddiau hynny, sy'n cynnwys:

- Defnydd perthnasol i'r gymuned; neu
- Ddefnydd perthnasol i dwristiaeth.

DIBEN

Diben y Brïff Marchnata hwn yw darparu'r wybodaeth gefndir bwysig ganlynol i gynorthwyo cynigwyr i baratoi'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer cyflwyno cynnig:

- **Cyd-destun a Disgrifiad;**
- **Ystod bosibl o ddefnyddiau (yn amodol ar unrhyw ganiatâd cynllunio angenrheidiol ar gyfer newid defnydd);**
- **Deunyddiau'r Cynnig, Dyddiad Cau a Chyfeiriad i Gyflwyno Cynigion;**
- **Dethol y Cynigydd a Ffefrir a'r Meini Prawf Sgorio a Bwysolir;**
- **Dull tendro;**
- **Crynodeb o Ragdybiaethau Gweithredol ar gyfer Cynigwyr;**
- **Proses Gynllunio Ar Wahân; ac**
- **Ymwadiad.**

Cynhyrchir y brïff Marchnata hwn fel canllaw yn unig.

CYD-DESTUN EIDDO A DISGRIFIAD

Nodir ffin yr eiddo sy'n berchen i'r Cyngor sydd wedi'i gynnwys yn y cyfle hwn ag **ymyl coch** ar y Cynllun Ffin (**Atodiad A**).

Fodd bynnag, dylai cynigwyr nodi na fydd cyfle i gynyddu arwynebedd y tir ac yr ystyrir na fydd unrhyw geisiadau a gyflwynir sy'n gofyn am dir ychwanegol i'r hyn a amlygir yn y cynllun ffiniau yn Atodiad A yn cydymffurfio ac y byddant yn cael eu hanwybyddu.

Bro Morgannwg

Bro Morgannwg yw Awdurdod Unedol mwyaf deheuol Cymru, yn gorwedd i'r gorllewin o Gaerdydd rhwng yr M4 ac Aber Afon Hafren. Mae'n 33,097 hectar o faint, y mae tua 85% (28,132 hectar) ohono'n dir amaethyddol. Mae gan y Fro 53 cilomedr o arfordir, y mae 19 cilomedr ohono wedi'i ddynodi'n Arfordir Treftadaeth. Mae'n ffinio ag awdurdodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'r gorllewin, Cyngor Caerdydd i'r dwyrain a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i'r gogledd.

Llanilltud Fawr

Tref arfordirol a chymuned ym Mro Morgannwg yw Llanilltud Fawr, tua 15 milltir (24 km) o ganol dinas Caerdydd. O'r pedair tref yn yr awdurdod, Llanilltud Fawr sydd â'r drydedd boblogaeth fwyaf, ar y blaen i'r Bont-faen.

Mae'r traeth cerrig yn gorwedd i'r de o'r dref yn nyffryn Cwm Col-huw. Mae'n gyrchfan boblogaidd i dwristiaid ac mae'n un o'r safleoedd gorau ar gyfer ffosilau Jwrasig yng Nghymru.

Yr Eiddo

Mae gan y safle y mae'r hen foc toiledau wedi'i leoli ynddo a ddymchwelwyd yn rhannol olygfeydd o draeth Llanilltud Fawr a Môr Hafren. Mae'r ardal gyfagos wedi'i gwarchod fel rhan o Arfordir Treftadaeth Morgannwg ac ar y clogwyni serth bob ochr i'r dyffryn, gellir gweld rhywogaethau prin yng Ngwarchodfa Natur Cwm Col-huw.

Mynediad

Mae'r safle'n un â mynediad i gerddwyr yn unig, a ddangosir gan yr ardal mewn glas ar y cynllun yn Atodiad A. Sylwer, er mwyn osgoi amheuaeth, nad oes mynediad i gerbydau i'r safle.

TYSTYSGRIF PERFFORMIAD YNNI (TPY)

Oherwydd cyflwr presennol yr eiddo, nid oes angen TPY.

Ardrethi Busnes

Nid oes ardrethi ar yr eiddo ar hyn o bryd; fodd bynnag, bydd y cynigydd llwyddiannus yn gyfrifol am unrhyw atebolrwydd ardrethi yn y dyfodol.

Penawdau Cyffredinol Telerau'r Brydles

Cyfrifoldebau ac Ymrwymadau'r tenant

Mae cynlluniau a manylebau ar gyfer newidiadau'r adeilad i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig ymlaen llaw gan Gyngor Bro Morgannwg fel Landlord / Tirfeddiannwr. Sylwch fod proses gynllunio statudol ar wahân yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gwbl annibynnol ar unrhyw gymeradwyaeth y gall y Cyngor ei roi yn ei rinwedd fel Landlord / Tirfeddiannwr ac nid yw unrhyw gymeradwyaeth y gall y Cyngor ei roi yn rhinwedd ei gapasiti fel Landlord / Tirfeddiannwr yn awgrymu y rhoddir Cymeradwyaeth Cynllunio ar gyfer y defnydd arfaethedig.

Yr hawl i adnewyddu

Bydd y brydles yn cael ei heithrio o ddarpariaethau adrannau 24 – 28 o Ddeddf y Landlord a'r Tenant 1954 ac felly ni fydd yna hawl awtomatig i adnewyddu.

Atgyweirio a rhwymedigaethau eraill

- Mae'r eiddo i'w osod ar sail atgyweirio ac yswirio llawn. Bydd y cynigydd llwyddiannus fel tenant sy'n cyrraedd yn gyfrifol am yr holl waith atgyweirio a chynnal a chadw mewnol ac allanol i'r eiddo.
- Bydd y Tenant yn gyfrifol am gydymffurfio â'r holl brofion cydymffurfio statudol presennol ac yn y dyfodol ac am gadw cofnodion priodol gyda chopïau'n cael eu darparu i'r Landlord ar gais.
- Bydd rhaid i'r Tenant gydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.
- Bydd y Tenant yn sicrhau (os yw'n berthnasol) ei fod yn ennill ac yn cynnal Sgôr Hylendid Bwyd Cenedlaethol o 3 neu uwch.
- Bydd y Tenant yn gyfrifol am gynnal cytundeb rheoli plaon ar gyfer y Safle.
- Pan fo gwaith yn cael ei gwblhau, bydd offer tân a goleuadau argyfwng i'w harchwilio'n flynyddol a bydd cofnodion priodol yn cael eu cadw gan y Tenant a darperir copïau i'r Landlord ar gais.
- Pan fo gwaith yn cael ei gwblhau, bydd rhaid i'r Tenant wneud asesiad risg a threfnu i'w offer gael ei archwilio'n rheolaidd rhag Legionella, yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Bydd rhaid iddo gadw cofnodion addas er mwyn dangos ei fod yn cydymffurfio, a bydd rhaid i'r rhain fod ar gael er mwyn eu harchwilio ar gais y Cyngor.
- Bydd y Tenant yn gyfrifol am sicrhau bod Yswiriant Cynnwys, Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ac Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr ganddo.
- Bydd y Tenant yn gwneud ymdrech resymol i lanhau graffiti oddi ar y tu mewn a'r tu allan i'r Safle o fewn 24 awr i'w ddarganfod. Os nad yw'n bosib i'r Tenant lanhau neu orchuddio'r graffiti, bydd rhaid iddo roi gwybod i'r Cyngor.
- Ni ddylai'r Tenant achosi unrhyw niwsans nac aflonyddwch wrth arfer telerau'r Brydles ac ni fydd, dan unrhyw amgylchiadau, yn caniatáu i sbwriel gael ei adael ar dir sy'n eiddo i Gyngor Bro Morgannwg. Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd y Tenant yn darparu (yn y cyffiniau) cynwysyddion priodol er mwyn taflu sbwriel a bydd yn sicrhau y caiff yr holl sbwriel o'r fath ei symud a'i waredu'n briodol mor aml ag y mae angen ond mewn unrhyw achos heb fod yn llai nag unwaith yr wythnos. Bydd y tenant yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2024.

Cyfyngiadau ar y Tenant

- Ni cheir gwerthu na defnyddio unrhyw gynnyrch tybaco ar y Safle.
- Ni chaniateir gwerthu nac yfed alcohol ar y Safle.
- Ac eithrio ar gyfer y busnes sy'n gweithredu ar y Safle, ni chaniateir hysbysebu masnachol ar y safle. Tynnir hysbysebion heb ganiatâd o'r safle.
- Bydd y Tenant yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol, unrhyw reoliadau iechyd cyhoeddus yn y dyfodol a'r holl ofynion gan y Landlord.
- Ni chaniateir defnyddio plastigau untro fel y nodir yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023.
- Ni chaniateir darparu unrhyw anifeiliaid byw fel gwobrau.
- Ni chaniateir lansio llusernau awyr Tsieineaidd.

Adennill costau

■ Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adfer unrhyw gostau gan y Gweithredwr sy'n codi yn sgil ei weithrediadau neu ddiffyg gweithredu yn unol â thelerau'r brydles. Bydd y brydles yn cynnwys unrhyw delerau ac amodau eraill y mae cyfreithwyr y Cyngor yn eu hystyried yn angenrheidiol.

CYNLLUNIO

Darperir gwybodaeth gynllunio yn **Atodiad B**. Mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau prynwr sydd wedi ymrwymo i gynnis a darparu defnydd yn unol â'r datganiad hwn ar gyfer y trigolion lleol a'r ardal ehangach.

TEITL

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn berchen ar y **buddiant rhydd-ddaliadol** yn yr eiddo. Gweler y nodyn teitl cyfreithiol yn Atodiad C. **Bydd prydles 25 mlynedd yn cael ei chynnig i'r tenant newydd.**

DEUNYDDIAU'R CYNNIG, DYDDIAD CAU A CHYFEIRIAD I GYFLWYNO TENDRAU

Bydd yn ofynnol i gynigwyr gyflwyno cais manwl yn cynnwys (**ystyrir na fydd unrhyw geisiadau nad ydynt yn darparu'r wybodaeth ofynnol yn cydymffurfio a byddant yn cael eu heithrio ar unwaith o'r broses llunio rhestr fer**):

A. Cynnig Rhent;

B. Datganiad o Fwriad / Gweledigaeth Busnes;

C. Cynllun Busnes a Gweithredu;

D. Cynllun Adeiladu Arfaethedig, Mynediad a Llinell Amser;

E. Datganiad Effaith Amgylcheddol a Newid Hinsawdd, gan gynnwys Polisi Plastigau Arfaethedig.

A. Cynnig Rhent

Sylwer y dylai cynigion gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- **Manylion adnabod y prydleswr arfaethedig** a manylion cyswllt;
- **Cynnig cais rhent;**
- **Cadarnhad bod arian digonol ar gael** (h.y. prawf o gyllid) i gyflawni'r cynllun arfaethedig. Dylai hyn nodi unrhyw ffynonellau cyllid neu ariannu (gan gynnwys dibyniaeth arfaethedig ar gyllid grant);
- Enw a manylion cyswllt llawn eich **cyfreithiwr**;
- **Rhaid** i chi nodi amodau eich cynnig, os oes rhai;
- **Dim cynigion wedi'u mynegi fel ffigwr canranol o gynigion gan barti arall;**
- **Does dim rheidrwydd ar y Cyngor** i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig;
- Byddai'n ddefnyddiol pe gallech **amlinellu eich hanes blaenorol**; a
- **Bydd unrhyw arwydd o gydgyllwynio** gan gynigydd gydag unrhyw barti arall yn diddymu'r cynnig.

B. Datganiad o Fwriad / Gweledigaeth Busnes

Rhaid i Gynigwyr gyflwyno datganiad o fwriad fel rhan o'u cynnig i ddangos eu gallu i reoli buddiant lesddaliad yn effeithiol. Dylai hyn gynnwys amlinelliad byr o'r weledigaeth / cynnig ar gyfer defnydd o'r adeilad.

C. Cynllun Busnes a Gweithredu

Crynodeb byr yn amlinellu manylion o ran sut y bydd y cynnig yn cael ei weithredu.

Ch. Cynllun Adeiladu Arfaethedig, Mynediad a Llinell Amser

Bydd gofyn i gynigwyr fel rhan o'u cynnig gyflwyno **cynllun adeiladu, mynediad a llinell amser ddangosol** ar gyfer cyflawniad corfforol y cynllun. Dylai cynigwyr gynnwys manylion am sut y bydd cynhyrchion gwastraff o'r broses adeiladu yn cael eu trin gyda phwyslais ar gyfyngu ar wastraff lle bynnag y bo modd.

D. Datganiad Effaith Amgylcheddol a Newid Hinsawdd

Gofynnir i gynigwyr amlinellu sut y bydd eu cynllun busnes yn ategu ac yn cynorthwyo'r ymdrech fyd-eang i leihau newid hinsawdd a dangos eu rhinweddau amgylcheddol a hefyd amlinellu unrhyw gynigion a fydd yn cefnogi ac yn hyrwyddo bioamrywiaeth.

Dyddiad Cau a Chyfeiriad i Gyflwyno Cynigion

Y dyddiad cau cwbl gadarn ar gyfer cyflwyno ceisiadau tendr yw **12 Hanner Dydd ar 05 Mehefin 2024.**

Rhaid cyflwyno'r cais mewn amlen gyda'r Label Dendr swyddogol wedi ei gludo ar y tu allan, a nodi "**Tendr Hen Floc Toiledau, Traeth Llanilltud Fawr**".

Rhaid selio'r amlen yn dynn a rhaid iddi **BEIDIO** â dangos unrhyw farc a allai ddatgelu pwy yw'r anfonwr / cynigydd. Er mwyn osgoi amheuaeth, **ni dderbynnir cynigion a gyflwynir ar e-bost.**

Dylid cyflwyno cynigion yn llawn ac yn y dull a nodir uchod at y:

**Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol,
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri CF63 4RU.**

Bydd y Cyngor yn **diystyru cynigion** a gaiff eu cyflwyno yn hwyr, eu hanfon i'r cyfeiriad anghywir, cynigion nad ydynt yn cydymffurfio neu sy'n anghyflawn.

Nid oes rheidrwydd ar y Cyngor i dderbyn unrhyw gais. Ar ben hynny nid oes rheidrwydd ar y Cyngor i dderbyn y cynnig ariannol uchaf, ac mae'n cadw'r hawl i atal neu newid y broses gynnig ar unrhyw adeg heb unrhyw oblygiadau o ran y costau a ysgwyddwyd gan y cynigwyr. Mae'r amser a'r gost sy'n deillio o baratoi cynnig i'w ysgwyddo'n llwyr gan y cynigydd ac ni ellir dal y Cyngor yn gyfrifol am gostau o'r fath.

DETHOL Y CYNIGYDD A FFEFRIR A'R MEINI PRAWF SGORIO A BWYSOLIR

Caiff y Cynigydd a Ffefrir ei ddethol ar ôl i'r Cyngor adolygu ac asesu pob cynnig. Bydd y Cyngor yn sgorio ac yn graddio pob un o'r cynigion ar y sail ganlynol:

- a. **Cynnig rhent arfaethedig (15%);** a
- b. **Datganiad o Fwriad / Gweledigaeth Busnes (15%);** a
- c. **Cynllun Busnes a Gweithredu (40%);** a
- d. **Cynllun Adeiladu Arfaethedig, Mynediad a Llinell Amser (20%);** a
- e. **Datganiad Effaith Amgylcheddol a Newid Hinsawdd (10%).**

DULL TENDRO

Cynigir y brydles 25 mlynedd drwy dendr anffurfiol. Caiff ceisiadau a dderbynnir y tu allan i'r meini prawf tendr caeth a nodir yn y paragraffau blaenorol o dan yr adran "**Dyddiad Cau a'r Cyfeiriad i Gyflwyno Cynigion**", eu diystyru.

CRYNODEB O RAGDYBIAETHAU GWEITHREDOL AR GYFER CEISIADAU

Fel rhagdybiaeth weithredol, dylai cynigwyr ystyried y canlynol, wrth baratoi eu cais:

- a) **Caniatadau Statudol** – Byddai unrhyw brydles yn cael ei rhoi ar y sail y byddai'r prydleswr yn gyfrifol am sicrhau'r holl ganiatadau statudol (e.e. rheoliadau cynllunio ac adeiladu, Trwyddedu ac ati);
- b) **Prydles Atgyweirio ac Yswirio llawn** - Byddai unrhyw brydles yn cael ei rhoi ar y sail y byddai'r Tenant yn gyfrifol am yr holl atgyweiriadau, gwasanaethau statudol, costau cyfleustodau fel trydan, dŵr ac ati, unrhyw atebolrwydd ardrethi, rhwymedigaethau yswiriant ac unrhyw wariant arall a ysgwyddir o ganlyniad i feddiannu'r safle drwy gydol cyfnod y brydles.
- c) **Ffioedd Syrfëwr a Chyfreithiol** - Y Cynigydd a Ffefrir fydd yn gyfrifol am ffioedd syrfëwr y Cyngor ac unrhyw gostau cyfreithiol rhesymol.
- d) **Ffioedd Cynllunio** – bydd yn ofynnol i'r Cynigydd a Ffefrir dalu am unrhyw ffioedd cynllunio sy'n gysylltiedig ag unrhyw gais i newid defnydd os bydd angen.
- e) **Costau Rheoliadau Adeiladu** – Bydd y Cynigydd a Ffefrir yn gyfrifol am gael a thalu unrhyw gostau rheoliadau adeiladu.

PROSES GYNLLUNIO AR WAHÂN

Mae'r Cyngor yn **gwahanu'n llwyr** y broses ddethol uchod a'i swyddogaeth fel tirlfeddiannwr oddi wrth y broses cais cynllunio a'i swyddogaeth fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae'r Cynigydd a Ffefrir yn gwbl gyfrifol am baratoi, cyflwyno a sicrhau caniatâd cynllunio i'w cynllun ar gyfer unrhyw newid defnydd neu gais cynllunio arall ar gyfer ei gynllun arfaethedig. **Nid yw dewis y Cynigydd a Ffefrir mewn unrhyw fodd yn awgrymu fod y cyngor wedi caniatáu neu y bydd yn rhoi caniatâd cynllunio.** Nid yw chwaith mewn unrhyw fodd yn cyfyngu ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol wrth arfer ei swyddogaethau.

Nid yw dewis y Cynigydd a Ffefrir ar gyfer y safle gan y Cyngor fel tirlfeddiannwr yn awgrymu bod y Cyngor yn ei swyddogaeth wahanol fel Awdurdod Cynllunio Lleol yn cefnogi ei gynnis a gyflwynwyd.

Fel y nodwyd eisoes mae **Atodiad B** yn gosod nodyn byr ar ddefnyddiau amgen posibl (yn amodol ar unrhyw gydsyniadau statudol neu gydsyniadau eraill sydd eu hangen).


YMWADIAD

Er y cymerwyd pob gofal wrth baratoi'r papur Marchnata hwn, **ni ellir gwarantu** cywirdeb ei gynnwys. **Nid yw'r cynnwys yn awgrymu unrhyw gynnis neu gontract** ac maent wedi eu paratoi i gynorthwyo cynigwyr yng nghyswllt y broses gynnis.

Nid yw'r Cyngor yn gwneud na rhoi ac nid oes gan unrhyw un o gyflogeion y Cyngor awdurdod i roi na rhoi arwydd o warant parthed yr eiddo hwn nac o safbwynt cywirdeb neu drylwyredd y wybodaeth a gaiff ei rhoi i gynigwyr. Rhaid i ddarpar gynigwyr fodloni eu hunain drwy archwilio neu fel arall gywirdeb y papur hwn a'r wybodaeth sy'n mynd gydag ef.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddiwygio unrhyw ran o'r briff hwn a bydd yn hysbysu cynigwyr yn ysgrifenedig o unrhyw amrywiad o'r fath.

ATODIAD A: CYNLLUN FFINIAU DANGOSOL



ATODIAD B: GWYBODAETH GYNLLUNIO

Mae'r safle wedi'i leoli o fewn Arfordir Treftadaeth Morgannwg ac felly byddai angen i unrhyw ddatblygiad o'r safle gydymffurfio â'r meini prawf ym Mholisi Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig MG27 fel y dangosir isod:

Enjoying

POLICY MG27 -

GLAMORGAN HERITAGE COAST

The special environmental qualities of the Glamorgan Heritage Coast will be conserved and enhanced. New development will be restricted to:

1. Development that is necessary for coastal defence as identified within the Lavernock Point to St Ann's Head shoreline Management Plan 2;
2. Development that is essential for agriculture, nature conservation, informal recreation, low impact tourism or coastal access;
3. Development within settlement boundaries; or
4. Other appropriate and sustainable development that accords with National Policy.

Development that unacceptably affects the special environmental qualities of the Glamorgan Heritage Coast will not be permitted.

Byddai angen cydymffurfio â pholisïau perthnasol y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig a Rhifyn 12 Polisi Cynllunio Cymru yn ogystal â'r Canllaw Cynllunio Atodol mewn perthynas ag unrhyw fath o ddatblygiad megis un sy'n gysylltiedig â thwristiaeth neu debyg.

Mae'r safle yn un o bwysigrwydd cadwraeth natur 'Gorllewin Cwm Colhuw' a nodir fel un sydd â statws ffafriol. Felly byddai angen i unrhyw ddatblygiad gydymffurfio â meini prawf ym Mholisi Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig MG21 fel y dangosir isod:

POLICY MG21 –

SITES OF IMPORTANCE FOR NATURE CONSERVATION, REGIONALLY IMPORTANT GEOLOGICAL AND GEOMORPHOLOGICAL SITES AND PRIORITY HABITATS AND SPECIES

Development proposals likely to have an adverse impact on sites of importance for nature conservation or priority habitats and species will only be permitted where it can be demonstrated that:

1. The need for the development clearly outweighs the nature conservation value of the site;
2. Adverse impacts on nature conservation and geological features can be avoided;
3. Appropriate and proportionate mitigation and compensation measures can be provided; and
4. The development conserves and where possible enhances biodiversity interests.

ATODIAD C: ADRODDIAD AR Y TEITL

Adroddiad ar y Teitl – Tir ar Draeth Llanilltud Fawr

1. Dehongliad

Defnyddir y termau canlynol yn yr adroddiad hwn:

Buddion: unrhyw hawl, hawddfrait, cyfyngiad, amod, cyfamod cyfyngu, hawl mwyngloddio neu fwynau, masnachfrait neu fuddiant arall sydd o fudd i'r Eiddo

Trosglwyddiad: trosglwyddiad dyddiedig 21 Chwefror 1967 a wnaed rhwng Ronald Arthur Anderson a Mollie Rosemary Taylor o un rhan a Chyngor ardal wledig y Bont-faen o'r rhan arall

Llyffethair: unrhyw hawl, hawddfrait, cyfyngiad, amod, cyfamod cyfyngu, hawl mwyngloddio neu fwynau, masnachfrait neu fuddiant arall y mae'r Eiddo'n destun iddo.

Cynllun: y cynllun a atodwyd i'r adroddiad hwn yn ATODIAD A

Eiddo: Yr eiddo a ddisgrifir ym mharagraff 2 yr adroddiad hwn.

2. Yr Eiddo

2.1 Yr Eiddo yw'r tir rhydd-ddaliadol a chyfleusterau cyhoeddus a godwyd arno a ddangosir mewn coch ar y Cynllun, a elwir yn dir ar draeth Llanilltud Fawr sydd ag arwynebedd o 603 llath sgwâr.

Nid yw'r eiddo wedi'i gofrestru. Trosglwyddwyd yr eiddo i'r Cyngor gan y Trosglwyddiad.

3. Materion sydd o fudd i'r Eiddo

Mae'r eiddo yn mwynhau'r buddion canlynol:

3.1 Yr hawl a'r rhyddid llawn i osod un bibell plastig ffibr neu ddeunydd arall a gymeradwywyd gan y bwrdd dŵr nad yw'n fwy na dwy fodfedd mewn tyllfedd o gryfder ac sydd wedi'i uno ym mhob rhan fel na chaniateir i unrhyw ddŵr sy'n pasio drwyddo ac o dan yr eiddo ddianc, dangosir y lleoliad mewn llinell las ar y Cynllun, a dylid ei gosod ar ddyfnder o'r wyneb a fydd yn amddiffyn y bibell rhag rhew ac yn sicrhau'r un peth yn erbyn gweithrediadau amaethyddol sy'n gysylltiedig â'r wyneb

3.2 Yr hawl a'r rhyddid llawn i gludo trwy'r bibell a nodir gymaint o ddŵr ag sy'n ofynnol gan y Cyngor at ddibenion gwasanaethu'r cyfleusterau cyhoeddus a nodir a

phwyntiau cyflenwi eraill fel a nodwyd ac o bryd i'w gilydd archwilio, tynnu i fyny, glanhau, atgyweirio, tynnu a disodli'r bibell a nodir neu unrhyw ran ohoni sy'n mynd i mewn i'r eiddo gan wneud cyn lleied o ddifrod â phosibl a sicrhau iawndal am yr holl ddifrod a allai gael ei wneud

3.3 Yr hawl a'r rhyddid llawn i'r Cyngor bob amser gyda neu heb gerbydau ar eu pen eu hunain, eu gweision a'u neilltuwyr i basio ac ail-basio dros ac ar hyd y tir, a ddangosir yn wyrdd ar y Cynllun, at ddibenion cynnal y cyfleusterau cyhoeddus a nodir

3.4 Mae cyfamod y gwerthwyr â'r Cyngor yn nodi y byddant yn caniatáu mynediad anghyfyngedig heb gost ar droed yn unig ar gyfer aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol dros ac ar hyd y tir dywededig, a ddangosir mewn gwyrdd ar y Cynllun, at ddibenion mynediad at y cyfleustra cyhoeddus dywededig

4. Materion sy'n gosod baich ar yr Eiddo:

Mae'r eiddo yn ddarostyngedig i'r llyffetheiriau canlynol:

4.1 Darparu un cysylltiad pibell ddŵr at ddibenion amaethyddol mewn lleoliad y cytunir arno â'r gwerthwyr a chysylltiad pellach â'r caffi a feddiannir gan denant y gwerthwr, Traeth Col-huw

4.2 Arfer yr hawliau a'r rhyddfrentiau a roddwyd yn y fath fodd nad yw'n achosi unrhyw ddifrod neu anaf diangen i'r gwerthwyr nac i'w tenantiaid neu feddianwyr unrhyw ran o'r eiddo neu berchnogion neu feddianwyr unrhyw diroedd cyfagos neu gerllaw ac i gadw'r gwerthwyr wedi'u hindemnio yn erbyn unrhyw weithrediadau, hawliadau neu ofynion y gellir yn gyfreithlon eu dwyn neu eu gwneud yn erbyn y gwerthwyr gan berchnogion, tenantiaid a meddianwyr neu gan unrhyw berson arall oherwydd unrhyw beth a wneir gan y Cyngor wrth arfer neu arfer honedig yr hawliau a'r rhyddfrentiau a roddwyd trwy hyn